Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Health, Social Care and Sport Committee
HSCS(5)-04-18 Papur 1/ Paper 1

ROYAL PHARMACEUTICAL SOCIETY Wales
CYMDEITHAS FFERYLLOL FRENHINOL Cymru

2 Ashtree Court,
Woodsy Close
Cardiff Gate Business Park
Cardiff
CF23 8RW

[redacted]
www.rpharms.com

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ionawr 18 2018

Annwyl Dai

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Ymchwiliad i ddefnydd o feddyginiaeth gwrthseicotig mewn cartrefi gofal**

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 17 Ionawr, hoffwn ymhelaethu ar bwyntiau a godwyd gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ynghylch arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn cartrefi gofal.

Yn gyntaf, gofynnaf i chi dderbyn fy ymddiheuriadau ar ran y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol am nodi yn fy natganiad i'r Pwyllgor ar Hydref 5 nad oedd AGC yn cynnwys meddyginiaethau yn eu harolygiadau o gartrefi gofal. Wedi cyfeirio yn ôl at drawsgrifiad y sesiwn dystiolaeth, mae'n amlwg nad yw'r pryderon sydd gennym am feddyginiaethau yn y broses arolygu AGC o gartrefi gofal wedi cael eu mynegi'n yn glir.

Mae ein pryderon ynghylch archwilio meddyginiaethau mewn cartrefi gofal wedi'u dogfennu yn ein polisi o 2016, *Gwella'r Defnydd o Feddyginiaethau ar gyfer Preswylwyr Cartrefi Gofal*, lle pwysleisiwyd:

> "Rhaid i safonau wrth roi a rheoli meddyginiaethau o fewn cartrefi gofal gael eu sicrhau nid yn unig er diogelwch cleifion ond hefyd i fodloni disgwyliadau'r rheolydd AGGCC. Cynhaliwyd yr adroddiad blynyddol diweddaraf yn dogfennu materion meddyginiaeth o fewn cartrefi gofal yn 2007/0815. Er mawr siom nid oedd adroddiadau blynyddol dilynol gan y rheolydd yn mynd i'r afael â materion cysylltiedig â meddyginiaeth i'r un graddau ac mae'n ymddangos nad yw fferyllwyr wedi bod yn rhan o'r tîm arolygu ers sawl blwyddyn."

Rydym yn deall bod archwiliadau cartrefi gofal yn ystyried meddyginiaethau fel rhan o fframwaith arsylwi ar gyfer arolygu. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn bryderus nag yw arbenigedd fferyllydd wedi'i gynnwys mewn proses adolygu meddyginiaeth cadarn fel rhan o arolygiadau cartrefi gofal yng Nghymru ers 2008. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad clir â'r dull a gymerwyd yn Lloegr, lle yr ydym yn deall fod dros 40 o fferyllwyr yn cymryd rhan uniongyrchol mewn archwiliadau cartrefi gofal a gynhelir gan y Comisiwn Ansawdd Gofal.

Mae absenoldeb meddyginiaethau o fewn adroddiadau blynyddol AGG ers 2008 a'r penderfyniad i beidio â chynnwys fferyllwyr mewn prosesau arolygu bryd hynny, wedi bod yn destun pryder i ni ers bron i ddegawd. Cawsom sicrwydd gan adroddiad blynyddol AGC 2007/08 bod y broses o reoli meddyginiaethau'n cael sylw haeddiannol pan nodwyd bod defnydd o feddyginiaethau yn faes y mae angen sylw arno ac bod eu harolygwyr wedi gosod 'gofynion ar gyfer gweithredu' mewn perthynas â meddyginiaeth mewn bron i draean (32 %) o gartrefi gofal. Fodd bynnag, mae'r faith nad yw adroddiadau AGC dilynol a gyhoeddwyd yn flynyddol ers 2008 wedi gwneud sylwad ar reolaeth meddyginiaethau mewn unrhyw fanylder wedi bod yn bryder cyson i'r gymdeithas.

Calonogol oedd clywed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, yn ystod sesiwn y pwyllgor ar 17 Ionawr, bod materion meddyginiaethau wedi'u nodi yn arolygiadau AGC gyda 54 o hysbysiadau diffyg cydymffurfio wedi eu darparu i gartrefi gofal mewn perthynas â defnydd meddyginiaeth dros y 12 mis olaf. Er ei bod yn ymddangos fod meddyginiaethau wedi eu cynnwys yn y broses arolygu o gartrefi gofal unigol, byddem yn parhau i

gwestiynu cadernid a chysondeb y broses heb fewnbwn arbenigol fferyllwydd. Fodd bynnag, rydym yn falch o glywed bod AGC wedi ymateb i'r hyn a adroddwyd yn ystod ymchwiliad y pwyllgor hwn trwy nodi'r gwelliannau i'r ffordd y mae'n gweithio yn y maes hwn. Rydym yn ddiolchgar i chi a'ch cyd-aelodau am ysgogi'r datblygiad hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn helpu i egluro ein pryderon ac unwaith eto, hoffwn ymddiheuro i chi a'r Pwyllgor am unrhyw anghywirdeb yn y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymchwiliad i ddefnydd gwrthseicotig mewn Cartrefi Gofal.

Peidiwch ag oedi i gysylltu os hoffech drafod y mater hwn ymhellach.

Yn gywir



Mair Davies FFRPS, FRPharmS, FHEA

Cyfarwyddwr, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yng Nghymru